# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod eithriadol o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ddydd Llun 14 Chwefror 2022. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| J W Parry | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

D Docx (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Datganodd y Cyng. J B Hughes ei fod, fel Cynghorydd Sir ar Gyngor Gwynedd, wedi gweithio'n agos ers sawl blwyddyn gyda'r ymgeisydd llwyddiannus am swydd Trysorydd.

3 MATERION BRYS

3.1 Dim.

4 PENODI SWYDDOG MONITRO/CLERC A THRYSORYDD

4.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad y prosesau caffael cystadleuol ar gyfer darparu Swyddog Monitro/Clerc a Thrysorydd i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

4.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod swyddi Swyddog Monitro a Thrysorydd yn swyddi statudol, a bod rhaid iddynt gael eu dal gan unigolion ag enw sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol. Daw'r swyddi'n wag ar 31 Mawrth 2022.

4.3 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod proses drylwyr wedi cael ei chynnal a'i bod wedi cynnwys cyfweliadau ffurfiol gan banel o Aelodau. Oherwydd arwyddocâd y ddwy swydd ar yr Awdurdod a'i holl Bwyllgorau, ystyrid mai doeth fyddai cael Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar y panel, ynghyd â chynrychiolaeth o'r Panel Gweithredol.

4.4 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod y panel yn unfrydol yn eu penderfyniadau i argymell i'r Awdurdod fod Gareth Owens a Dafydd Edwards yn cael eu penodi i swyddi Clerc/Swyddog Monitro a Thrysorydd yn eu trefn. Felly **PENDERFYNWYD**

(i) nodi'r ffaith fod y broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu swyddog monitro/clerc a thrysorydd am gyfnod o bedair blynedd o'r 1 Ebrill 2022 ymlaen wedi cael ei chwblhau;

(ii) cymeradwyo penodi Gareth Owens, Cyngor Sir y Fflint yn Swyddog Monitro/Clerc a Dafydd Edwards yn Drysorydd.

Ar yr adeg hon, cafodd Gareth Owens a Dafydd Edwards eu derbyn i'r cyfarfod. Rhoddodd hyn gyfle i Dafydd Edwards ei gyflwyno ei hun i'r Aelodau, ac i Mr Owens a Mr Edwards ill dau gael eu llongyfarch gan yr Aelodau.

RHAN II

5 PENODI I SWYDD PRIF SWYDDOG CYNORTHWYOL

5.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i’r Aelodau fod y cyfweliadau ar gyfer swydd Prif Swyddog Cynorthwyol wedi cael eu cynnal ar 11 Chwefror 2022.

5.2 Cynhaliwyd proses recriwtio a dethol drylwyr, ac roedd yr aelodau ar y panel dethol yn unfrydol yn eu penderfyniad i argymell i’r Awdurdod Tân ac Achub fod Shân Morris yn cael ei phenodi i swydd Prif Swyddog Cynorthwyol.

5.3 **PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y panel dethol fod Shân Morris yn cael ei phenodi i swydd Prif Swyddog Cynorthwyol.**

5.4 Yna, gwahoddwyd y PSC Morris i’r cyfarfod i gael ei llongyfarch gan yr Aelodau.